



Strategaeth Datblygu Lleol LEADER 2014-2020



Cynnal y Cardi: Cyflawni cynllun LEADER yng Ngheredigion



Dogfen Gryno




Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Cyflwyniad

Mae Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI) Cynnal y Cardi wedi paratoi'r ddogfen Strategaeth Datblygu Lleol (SDLI) hon ar ôl ymgynghori â'r gymuned. Mae'r strategaeth yn nodi'r hyn sydd bwysicaf i ddatblygiad eu hardal ym marn pobl lleol, ynghyd â'r sialensiau a'r cyfleoedd. Mae'r strategaeth yn ffurfio'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu posibl er mwyn dosbarthu Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), er mwyn cefnogi gweithgarwch LEADER.

Rhaid i'r holl weithgarwch a gefnogir gyd-fynd â nodau'r SDLI hon ac mae'n rhaid iddo fanteisio ar saith nodwedd allweddol LEADER:



Mae gan Geredigion lefel uchel o gydlyniaeth hanesyddol, daearyddol a diwylliannol, ac mae preswylwyr lleol yn falch o'r ffaith eu bod yn perthyn i hyn. Bydd cynllun LEADER Cynnal y Cardi yn manteisio ar ac yn cryfhau'r asedau hyn trwy ddatblygu detholiad o gamau gweithredu LEADER. Mae Ceredigion yn ffodus iawn gan bod ganddi gyfoeth o arfordir heb ei ddifetha, ucheldir, treftadaeth ddiwylliannol, asedau bioamrywiaeth a chymunedau cydnerth. Ar y llaw arall, ar ddechrau'r rhaglen, gwelir bod pobl Ceredigion yn wynebu rhai o'r lefelau bod heb waith uchaf, yn ogystal â'r cyflogau isaf ond un yng Nghymru. O ran ei dangosyddion cymdeithasol-economaidd, nid yw Ceredigion yn hollol nodweddiadol o gefn gwlad Cymru.

Mae data cyfrifiad 2011 yn dangos bod strwythur poblogaeth Ceredigion yn heneiddio'n gyflymach nag y mae mewn rhannau eraill o Gymru, ac mae'r ffaith bod nifer y preswylwyr oedran gweithio yn gostwng yn gwaethygu'r mater hwn. Mae nifer y Siaradwyr Cymraeg yn gostwng hefyd, ac mae wedi cyrraedd 47.35%, o'i gymharu â 51% yn y Cyfrifiad blaenorol. Mae pobl ifanc yn symud i'r dinasoedd ac mae'r cyflogau'n isel – y seithfed awdurdod lleol isaf ym Mhrydain (gyda chyfartaledd cymedrig o £452.3 fel enillion wythnosol gros).

Yn ystod Rhaglen RDP 2007-2013, llwyddwyd i sicrhau cynnydd wrth ddatblygu model llwyddiannus i ymgysylltu â chymunedau er mwyn cynorthwyo cymunedau gwledig Ceredigion. Mae wedi bod yn gerbyd lle y defnyddiwyd y math hwn o gyllid er mwyn hyrwyddo entrepreneuriaeth, arloesedd, hyrwyddo diwylliant a threftadaeth gyfoethog yr ardal ac mae wedi hyrwyddo cymunedau gweithgar ac wedi'u grymuso, trwy weithio gyda nhw i geisio datrysiadau i faterion lleol.

Mae'r profiad o weithredu gweithgareddau LEADER yn y rhaglen hon wedi dylanwadu ar rai o'r dulliau gweithredu a amlinellir isod ac yn y Tabl Rhesymeg Ymyrraeth, ond ymhellach, mae'r strategaeth hon yn nodi cyfleoedd pellach hefyd ar gyfer arloesedd lleol, gweithio mewn partneriaeth mewn ardaloedd cyrchfan a mwy o rwydweithio a chydweithrediad rhwng GGLlau.


Dadansoddiad SWOT Ceredigion

Cryfderau	Gwendidau
<ul style="list-style-type: none"> ◇ Amgylchedd o ansawdd uchel. ◇ Cyfalaf cymdeithasol cadarn. ◇ Hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol. ◇ Y potensial i sicrhau ansawdd bywyd uchel. ◇ Cynnyrch twristiaeth sefydledig. ◇ Gweithlu teyrngar, medrus/sy'n meddu ar gymwysterau da a hyblyg, a chostau llafur isel. ◇ Sector addysg uwch / ymchwil sylweddol. ◇ Poblogaeth sefydledig. 	<ul style="list-style-type: none"> ◇ Ar y cyrion i brif ganolfannau economaidd ac yn aml, mae'r seilwaith Trafnidiaeth a TGCh yn annigonol. ◇ Costau masnachu, costau darparu gwasanaethau a chostau byw uwch. ◇ Prinder llafur a sgiliau. ◇ Cynhyrchiant ac incymau isel a % uchel yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus. ◇ Diffyg capasiti cymunedol. ◇ Delwedd a dirnadaeth. ◇ Dwysedd poblogaeth isel.
Cyfleoedd	Bygythiadau
<ul style="list-style-type: none"> ◇ Gwella'r cyfleoedd i fanteisio ar TG. ◇ Tyfu capasiti cymunedol er mwyn archwilio cyfleoedd i greu cymunedau cydnerth mwy rhagweithiol. ◇ Dull rheoli cyrchfan tuag at dwristiaeth a datblygu ymdeimlad o le. ◇ Manteisio i'r eithaf ar weithgarwch rheoli tir yn yr ardaloedd ucheldirol er mwyn cynyddu incymau. ◇ Newid parhaus i'r boblogaeth wrth i bobl fudo, gyda chyfanswm net o bobl ifanc yn gadael a chyfanswm net o bobl canol oed yn symud i mewn. ◇ Cryfhau hunaniaeth yr ardal gan ddefnyddio asedau diwylliannol yr ardal. ◇ Gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau er mwyn datblygu dulliau gweithredu cydweithredol a fydd yn cynnig budd i'r economi wledig. ◇ Cynyddu'r cyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu gan gynnwys hyfforddi staff, caffael sgiliau, prentisiaethau a thrafnidiaeth well er mwyn cyrraedd y gweithle a hyfforddiant. ◇ Manteisio ar amgylchedd naturiol a thirlun yr ardal. ◇ Hwyluso economi sy'n seiliedig ar wybodaeth mewn ffordd sylweddol, er mwyn cefnogi cyfleoedd newydd ac arloesol a datblygu a chryfhau cadwyni cyflenwi byr i sicrhau cymaint o fudd ag y bo modd i fusnesau. 	<ul style="list-style-type: none"> ◇ Newidiadau i UE / ad-drefnu'r Llywodraeth, canoli, sy'n fygythiad i gymunedau gwledig. ◇ Newid demograffig. Pobl ifanc a chymwys yn symud o'r ardal, gan arwain at boblogaeth oedran gweithio sy'n lleihau. Disgwylir cynnydd ym maint grwpiau poblogaeth pobl hŷn dros y ddegawd nesaf, gan arwain at allgáu cymdeithasol ac erydu cyfalaf cymdeithasol. ◇ Newid yn yr hinsawdd – y ffaith bod digwyddiadau tywydd eithafol megis llifogydd yn fwy tebygol o ddigwydd yn y dyfodol. ◇ Nifer y busnesau yn gostwng. ◇ Pwysau ar wasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i fesurau i leihau'r ddyled gyhoeddus, megis gwario llai ar les a lleihau cyllidebau eraill yn y sector cyhoeddus. ◇ Y gallu i fforddio byw o ganlyniad i gostau llafur isel a chodiad hirdymor mewn costau trafndiaeth a thanwydd gwresogi. ◇ Problemau gyda hygyrchedd amrediad o wasanaethau. ◇ Lleoliad Ceredigion ar gyrion Cymru a'r DU a chanolfannau UE.

Nodau ac Amcanion Strategol

Ceir perthynas strategol allweddol rhwng strategaeth SDLI Ceredigion a **Chynllun Llesiant Lleol Ceredigion** - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

Mae'r siart canlynol yn dangos y perthnasoedd:



Ail gydran sydd yr un mor bwysig yw “Ein Bywoliaeth, Ein Strategaeth Adfywio Economaidd”.

Mae'r strategaeth yn mynd ymlaen i ddatblygu'r cryfderau hyn trwy gyfrwng pum maes thematig:



Mae'n amlwg o ffocws y pum maes hwn eu bod oll yn berthnasol i gynllun LEADER ac y cynllun- iwyd SDLI i gyflawni yn erbyn pob un o'r meysydd thematig a nodwyd.

Mae canllawiau SDLI yn nodi bod yn rhaid gwneud dewisiadau ac y dylai SDLI ganolbwyntio ar gyflawni amcanion penodol o fewn y fframweithiau strategol lleol. Mae'r cydweddiad cadarn rhwng SDLI a'r Strategaeth Economaidd yn dangos bod cryn dipyn o gyfatebolrwydd. Mae'n amlwg bod hyn yn gysylltiedig â natur wledig iawn Ceredigion a'r ffaith bod adfywio economaidd ehangach wedi cael ei wreiddio'n gadarn yn adnoddau gwledig y sir.

Mae'r cynllun LEADER yn tynnu ei ffocws strategol lleol gan "gyd deithwyr" yn y synnwyr strategol lleol; mae'r rhain yn cynnwys Mynyddoedd Cambria, Biosffer Dyfi a FLAG Bae Ceredigion. Mae datblygiad SDLI wedi manteisio ar yr holl strategaethau a'r partneriaethau hyn wrth ddatblygu ei gweledigaeth a'i hamcanion. Nodir y rhain yn y pum maes thematig canlynol.

Strategaeth SDLI

Mae'r strategaeth yn defnyddio gwybodaeth ac adnoddau chwaraewyr lleol o'r sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector cymunedol a'r sector gwirfoddol, sy'n dod ynghyd i ffurfio GGLI. Maent yn cynnig y sylfaen er mwyn hwyluso gweithgarwch penderfynu lleol ynghylch blaenoriaethau strategol ac ynghylch defnyddio adnoddau er mwyn gweithredu'r strategaeth.

A. Defnyddio'r Amgylchedd a'r Tirlun Naturiol

Un o brif asedau Ceredigion yw ei hamgylchedd o ansawdd uchel. Mae ganddi amrywiaeth gyfoethog o dirlun sy'n ymestyn o arfordir Bae Ceredigion i Fynyddoedd Cambria ac o'r Dyfi yn y gogledd i Ddyffryn Teifi yn y de. Nodwyd bod yr amgylchedd naturiol yn ysgogwr economaidd posibl ar gyfer y sir ac mae gweithgarwch LEADER yn bwriadu datblygu'r cyfle hwn.

Blaenoriaethir y bedair ardal ddaearyddol a nodwyd yn flaenorol fel ardaloedd lle y cyflawnir gweithgarwch LEADER, ond nid y rhain fydd yr unig ardaloedd, a bydd y gweithgarwch hwn yn canolbwyntio ar:

- ◇ Ddiogelu asedau amgylcheddol y sir trwy gyfrwng gweithgarwch rheoli cynaliadwy;
- ◇ Datblygu dull rheoli cyrchfan tuag at dwristiaeth a datblygu ymdeimlad o le;
- ◇ Archwilio cyfleoedd i fanteisio ar dreftadaeth naturiol ac adeiledig y sir;
- ◇ Cynorthwyo cymunedau i archwilio'r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Ngheredigion.

B. Creu Economi sy'n Seiliedig ar Wybodaeth

Mae gan Geredigion sylfaen ymchwil ac addysgol gadarn ar draws nifer o sectorau e.e. Prifysgol Aberystwyth gan gynnwys IBERS – Gorsaf Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran yn benodol, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ceir potensial go iawn i fanteisio ar y canolfannau gwybodaeth hyn ar gyfer gweithgarwch rhwydweithio a chydweithio rhwng busnesau a phrifysgolion. Bydd gweithgarwch LEADER yn canolbwyntio ar:

- ◇ Wella'r cysylltiadau gyda Phrifysgolion a'r sector ymchwil er mwyn datblygu canolfannau busnes trwy hwyluso datblygiad y gweithle/unedau deori a mentora;
- ◇ Cefnogi mentrau peilota ac ymchwil ynghylch cyfleoedd newydd ac arloesol ar gyfer datblygiad cyn-fasnachol ym mhob sector;
- ◇ Datblygu cyfleoedd i fusnesau yng Ngheredigion fanteisio ar ddata a fydd yn eu helpu i nodi tueddiadau yn y farchnad, dadansoddi'r farchnad, dadansoddi gwybodaeth am y farchnad a dirnadaeth ymchwil;
- ◇ Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol trwy hwyluso gweithredoedd ar y cyd.

Mae mecanweithiau cymorth eisoes yn bodoli trwy Ganolfan Bwyd Cymru a rhaglen Cywain, sy'n caniatáu i unigolion o fewn y sector amaethyddol a bwyd i fanteisio ar gymorth er mwyn datblygu cynhyrchion newydd a manteisio ar farchnadoedd newydd. Yn y sector penodol hwn, bydd gweithgarwch o fewn yr SDLI hon yn cynorthwyo gweithgarwch datblygu cynnyrch newydd lle y gwelir bwlch ar hyn o bryd a lle y ceir rhwystr i'r rhai sy'n dymuno ychwanegu gwerth i'w cynhyrchion. Felly, mae'r amcan hwn o fewn y strategaeth yn cwblhau'r cymorth ar gyfer y rhai yn y diwydiant i ymateb i anghenion y farchnad a datblygu cynhyrchion newydd er mwyn profi'r farchnad.

C. Manteisio i'r Eithaf ar Ddiwylliant a Threftadaeth

Mae gan Geredigion hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gadarn. Gyda nifer o leoliadau treftadaeth arbennig allweddol, bridiau cynhenid niferus a gweithgareddau diwylliannol sefydledig yn y sir, ceir cyfleoedd i gryfhau rôl diwylliant a threftadaeth i fod yn ysgogwr economaidd. Mae'r gostyngiad bach yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cyfrifiad diwethaf wedi amlygu'r angen i ddefnyddio mwy o'r iaith Gymraeg er mwyn creu hunaniaeth gryfach.

Bydd gweithgarwch LEADER yn canolbwyntio ar:

- ◇ Hyrwyddo gweithgareddau economaidd arloesol a ddatblygir o berthynas uniongyrchol gyda'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig;
- ◇ Datblygu mentrau ymdeimlad o le lleol cymunedol sy'n hyrwyddo nodweddion unigryw lleol ac sy'n datlu themâu lleol;
- ◇ Datblygu strategaethau marchnata wedi'u cydlynu ac offerynnau hyrwyddo er mwyn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth.

D. Ychwanegu Gwerth i'n Prif Gynhyrchion

Mae maint Ceredigion, sef 1,800km², a'r ffaith ei bod yn denau ei phoblogaeth, yn sicrhau bod gennym ddigon o brif adnoddau i fanteisio arnynt, ar y tir ac ar y môr.

Mae profiad blaenorol ar brosiect LEADER Cynnal y Cardi wedi amlygu'r ffaith bod cyfleoedd yn bodoli er mwyn datblygu prif gynhyrchion Ceredigion. Mae gan y sir sector amaethyddol a choedwigaeth cadarn a gwnaethpwyd gwaith gyda'r sector coedwigaeth o ran datblygu cyfleoedd hyfforddiant i wirfoddolwyr, gan gefnogi mentrau marchnata er mwyn hyrwyddo cyfleoedd coetir. Bydd gweithgarwch LEADER yn canolbwyntio ar:

- ◇ Ddatblygu cymorth ar gyfer arloesi gyda datblygu cynnyrch cyn-fasnachol sy'n caniatáu mynediad i gyfleoedd marchnad newydd yn lleol.
- ◇ Datblygu rhwydwaith o gynhyrchwyr er mwyn nodi ffyrdd newydd o ddefnyddio cynhyrchion naturiol.
- ◇ Datblygu cyfleoedd rhwydweithio rhwng unigolion a busnesau ym mhob sector.
- ◇ Cynorthwyo datblygiad gweithgareddau twristiaeth ar sail thema e.e. bwyd.

E. Datblygu Ein Pobl a'n Sefydliadau

Mae creu cymunedau mwy cydnerth – boed hynny'n gymunedau daearyddol neu'n gymunedau o ddiddordeb ac unigolion, yn un o brif nodau LEADER. Mae'r ffaith bod ein heconomi yn newid, ynghyd â'r pwysau ariannol parhaus ar wasanaethau cyhoeddus, yn golygu bod cyfleoedd i gymunedau arloesi ac archwilio mentrau sy'n gallu cynorthwyo gwasanaethau anstatudol lleol. Yn ogystal, mae SDLI yn cynnig y cyfle i ddatblygu capasiti unigolion a grwpiau ym mhob sector, er mwyn datblygu sgiliau a meithrin datblygiad capasiti er mwyn datblygu mentrau lleol. Bydd gweithgarwch LEADER yn canolbwyntio ar:

- ◇ Ymchwilio i rôl cymunedau wrth ddarparu gwasanaethau anstatudol lleol.
- ◇ Archwilio cyfleoedd i beilota gwasanaethau anstatudol lleol a pharatoi achosion busnes er mwyn trosglwyddo asedau gwasanaethau ac asedau anstatudol.
- ◇ Archwilio cyfleoedd i dyfu capasiti cymunedol mentrau cymdeithasol, grwpiau ac unigolion.

Mae'r meysydd thematig uchod yn cyfrannu at y fframwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod adnoddau LEADER yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Thema 1** Ychwanegu gwerth i hunaniaeth leol, adnoddau naturiol a diwylliannol.
- Thema 2** Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr.
- Thema 3** Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol.
- Thema 4** Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol.
- Thema 5** Manteisio ar Dechnoleg Ddigidol.

Roedd y broses ymgynghori a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o baratoi'r SDLI wedi cyfrannu at flaenoriaethu themâu uchod L.L.C hefyd. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriadau yn blaenoriaethu themâu 1 i 3 fel y rhai pwysicaf, a barnwyd nad oedd angen rhoi cymaint o flaenoriaeth i themâu 4 a 5, ond eu bod yn berthnasol o hyd o ran y materion y mae Ceredigion yn eu hwynebu fel sir wledig. Mae'r blaenoriaethau o dan bob thema i'w gweld isod:

Thema 1: Ychwanegu Gwerth at Hunaniaeth Leol ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol

Blaenoriaeth 1: Gwneud defnydd o'r amgylchedd a'r dirwedd naturiol	Cynyddu'r cyfleoedd economaidd, cymdeithasol a lles sy'n cael eu creu gan amgylchedd Ceredigion sydd o ansawdd uchel.
	Datblygu camau gweithredu cydweithredol yn ardaloedd Dyffryn Teifi, Mynyddoedd Cambrian a Biosffer Dyfi, sy'n seiliedig ar wneud defnydd o'r amgylchedd a'r dirwedd naturiol.
	Annog rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd naturiol a thirwedd yr ardal.
	Cryfhau sgiliau'r gweithlu yn y sector a darparu cyfleoedd hyfforddi i wirfoddolwyr.
Blaenoriaeth 2: Cryfhau hunaniaeth yr ardal gan ddefnyddio asedau diwylliannol yr ardal	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl Ceredigion.
	Cynyddu ac atgyfnerthu sgiliau Cymraeg pobl Ceredigion.
	Hyrwyddo gweithgareddau economaidd a fydd yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg.
	Dathlu a hyrwyddo treftadaeth gymdeithasol a diwylliannol gyfoethog Ceredigion.
	Gwarchod a hyrwyddo amryw fridiau da byw brodorol Ceredigion.
Blaenoriaeth 3: Gweithredu dull Rheoli Cyrchfannau at dwristiaeth ac ymdeimlad o le yng Ngheredigion	Meithrin amgylchedd o rwydweithio rhwng y sectorau cymunedol a busnes a phartneriaid rheoli cyrchfannau i rannu arfer gorau ac adnoddau.
	Datblygu cynnyrch arloesol a mentrau cydweithredol i hyrwyddo ardaloedd Dyffryn Teifi, Mynyddoedd Cambrian a Biosffer Dyfi fel cyrchfannau.
	Ysgogi twf clystyrau lleol i weithredu mentrau twristiaeth gan ddefnyddio adnoddau naturiol a diwylliannol yr ardal fel ased.
	Datblygu rhaglen gwasanaeth cwsmeriaid sy'n canolbwyntio ar Geredigion.
	Gwneud y sector twristiaeth yn fwy deniadol i bobl iau.
Blaenoriaeth 4: Addasu i newid yn y boblogaeth yng Ngheredigion, gydag allfudo net o bobl ifanc a mewnfudo net o bobl canol oed	Meithrin integreiddio rhwng demograffeg oedran wahanol er mwyn cefnogi cymdogaethau Cymraeg eu hiaith cynaliadwy a chydlyniant cymunedol.
	Annog mwy o ymgysylltu rhwng gwahanol grwpiau oedran i hyrwyddo trosglwyddo sgiliau.
	Archwilio cyfleoedd busnes sy'n deillio o anghenion gwasanaeth y boblogaeth sy'n heneiddio.
Blaenoriaeth 5: Gwella gallu'r gymuned i archwilio cyfleoedd ar gyfer creu cymunedau cryf a mwy rhagweithiol.	Cynyddu'r cymorth sydd ar gael i grwpiau a sefydliadau ar gyfer datblygu mentrau cynaliadwy lleol.

Thema 2: Hwyluso Datblygu Cyn-fasnachol, Partneriaethau Busnes a Chadwyni Cyflenwi Byr

Blaenoriaeth 1: Hwyluso economi sy'n seiliedig ar wybodaeth sylweddol er mwyn cefnogi cyfleoedd newydd ac arloesol	Cael mynediad i wybodaeth sy'n arwain y farchnad a fydd yn caniatáu i fusnesau Ceredigion gael mynediad at ddata er mwyn cefnogi twf yn y sector preifat.
	Meithrin amgylchedd o rwydweithio rhwng y sectorau cymunedol a busnes i rannu arfer gorau ac adnoddau.
	Gwella mynediad gan fusnesau ac entrepreneuriaid i Addysg Uwch a'r sector ymchwil a datblygu er mwyn cefnogi cyfleoedd newydd ac arloesol.
	Meithrin datblygu cynnyrch cyn-fasnachol arloesol a fydd yn helpu i gyrraedd marchnadoedd newydd.
Blaenoriaeth 2: Cryfhau cadwyni cyflenwi byr er mwyn cael y budd gorau posibl i fusnesau	Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol yng Ngheredigion.
Blaenoriaeth 3: Cynyddu cyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu	Annog twf sgiliau arweinyddiaeth.
	Uwchsgilio gweithlu cyflogaeth Ceredigion.
	Cefnogi mentrau sy'n helpu unigolion i gael mynediad at waith, hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a gwasanaethau eraill.

Thema 3: Archwilio Ffyrdd Newydd o Ddarparu Gwasanaethau Lleol Anstatudol

Blaenoriaeth 1: Gwella gallu'r gymuned i archwilio cyfleoedd ar gyfer creu cymunedau cryf a mwy rhagweithiol	Adeiladu gallu a chynyddu hyder unigolion / grwpiau i adnabod cyfleoedd ar gyfer datblygiadau cymunedol.
	Gwella mynediad at wybodaeth a meithrin rhwydweithiau cymunedol.
	Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu o fewn cymunedau.
	Ymchwilio i rôl cymunedau a phartneriaid cyflenwi eraill o ran darparu gwasanaethau anstatudol lleol a chefnogi trosglwyddo asedau a gwasanaethau anstatudol.
	Adnabod dulliau arloesol o ddarparu gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig.
	I beilota gweithgareddau sy'n gwella lles unigolion a chymunedau.

Thema 4: Ynni Adnewyddadwy ar Lefel Gymunedol

Blaenoriaeth 1: Angen gwella gallu'r gymuned i archwilio cyfleoedd ar gyfer creu cymunedau cryf a mwy rhagweithiol	Hwyluso'r gwaith cyn-ddatblygu ar gyfer mentrau ynni-adnewyddadwy cymunedol ac i adnabod cyfleoedd ar gyfer paratoi cymunedau i ymateb i newid yn yr hinsawdd.
Blaenoriaeth 2: Lleihau effaith y cynnydd hirdymor mewn costau byw	Datblygu cyfleoedd ar gyfer rhannu adnoddau ac adnabod mentrau lleihau costau ac amgylchedd effeithlon newydd.

Thema 5: Manteisio ar Dechnoleg Ddigidol

Blaenoriaeth 1: Gwella mynediad i Dechnoleg Gwybodaeth a manteisio arni	Gwella'r defnydd o dechnoleg ddigidol gan unigolion, busnesau a chymunedau i hybu twf economaidd gwledig a chynaliadwy.
	Sicrhau cynhwysiant digidol i bobl mewn cymunedau gwledig.
	Manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer masnachu digidol gan fusnesau a chynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau mewn ardaloedd gwledig.

Monitro a Gwerthuso

Mae GGLI yn barnu y bydd yr allbynnau – canlyniadau – effeithiau yn cynnig sylfaen gadarn er mwyn cyflawni ei weledigaeth ar draws Ceredigion gyfan. Roedd trafodaethau GGLI yn canolbwyntio ar feithrin a datblygu agwedd “gallwn wneud” ymhlith cymunedau, sefydliadau, busnesau ac unigolion yn y sir wledig hon. Bydd gweithgareddau LEADER yng Ngheredigion yn canolbwyntio ar y ffaith “bod yr hyn sy'n lleol yn bwysig”, gan fabwysiadu dull gweithredu llawr gwlad, arloesol ac uchelgeisiol tuag at unrhyw ddatblygiadau. Felly, mae'n bwysig bod y cynllun LEADER yn cydnabod ac yn cofnodi'r 'daith' neu'r broses a ddilynwyd gan yr unigolion, y busnesau a'r cymunedau hynny dros gyfnod o amser, yn ogystal â'r canlyniadau a'r allbynnau sydd wedi'u seilio ar elfennau mwy cadarn. Felly, caiff y data ynghylch “sut” yn ogystal â “beth” ei fonitro a'i gofnodi er mwyn dangos tystiolaeth o gyflawniadau cynllun LEADER.

Nodir yr allbynnau fel a ganlyn:

Nifer y astudiaethau dichonoldeb	10
Nifer y rhwydweithiau sefydledig	8
Nifer y swyddi a ddiogelwyd trwy brosiectau a gefnogir	1.5
Nifer y gweithgareddau peilot a gynhaliwyd / cefnogwyd	38
Nifer yr hybiau cymunedol	1
Nifer o gamau lledaenu gwybodaeth / hyrwyddo a / neu weithgareddau marchnata i godi ymwybyddiaeth o'r SDLI a / neu ei brosiectau	122
Nifer y rhanddeiliaid yn cymryd rhan	230
Nifer y cyfranogwyr a gefnogir	473

Yn ogystal, mae GGLI wedi nodi nifer o allbynnau ychwanegol i'w coladu yn ystod cyfnod y rhaglen, sy'n cynnwys:

Nifer o gymunedau yn cymryd rhan
Nifer o grwpiau yn cymryd rhan
Nifer y bobl ifanc sy'n cyfranogi
Nifer y menywod sy'n cyfranogi
Nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cyfranogi
Nifer yr henoed sy'n cyfranogi
Nifer yr bobl anabl sy'n cyfranogi
Nifer y gweithgareddau sy'n mynd ati i annog neu hyrwyddo camau i roi sylw i gynaliadwyedd amgylcheddol
Nifer o ymarferion ymgynghori
Nifer o grwpiau clwstwr neu rhwydweithiau anffurfiol a grëir
Nifer o aelodau'r GGLI yn cymryd rhan mewn hyfforddiant
Nifer y Staff yn cymryd rhan mewn hyfforddiant

Bydd dull GGLI er mwyn **gwerthuso** yn strategol, gan bennu strategaeth o gasglu tystiolaeth a chan bennu'r pwyntiau hanner ffordd a'r pwyntiau olaf ar gyfer gwaith gwerthuso allanol ffurfiol.